



COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDY DDYDD MERCHER 27 MEDI 2023

AMSER: 10:30 – 11:30; LLEOLIAD: ZOOM

YN BRESENNOL: Jenny Rathbone AS a Jane Dodds AS (Cadeiryddion), Sioned Williams AS, Imogen Martin - swyddfa Laura Anne Jones AS.

YN BRESENNOL: Bryony Tweedale – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf; Dr Orion Burns – Y Gymdeithas ar gyfer Iechyd Meddwl Babanod; Julie Richards – Coleg Brenhinol y Bydwagedd (RCM); Rhian Smith – Y Rhwydwaith Maethu (TFN); Cherrie Bija – Ffydd mewn Teuluoedd; Helen Perry – Project Unity; Tina Foster – Tros Gynnal Plant Cymru (TGP Cymru); Alison Scouler – Y Gymdeithas Iechyd Sosialaidd; Heulwen Davies – Llais Cymru; Leah Hull – Y Rhwydwaith Hawliau Menywod (WRN); Mark Carter – Barnardo's; Bronwen Davies – Hawliau Erthyly Caerdydd; Abigail Rees – Barnardo's; Kayleigh Williams – Fferylliaeth Gymunedol Cymru; Sarah Thomas – Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched Cymru (NFWI); Jayne Drummond – Home Start Cymru; Hugh Russell – Plant yng Nghymru; Sean O'Neill – Plant yng Nghymru; Sian Thomas – GIG Cymru; Louise O'Neill – Plant yng Nghymru; Lucy Grieve – Gwasanaeth Cyngori Beichiogrwydd Prydain (BPAS)

YMDDIHEURIADAU: Debbie Shaffer – Triniaeth Deg i Ferched Cymru; Dave Goodger – Blynnyddoedd Cynnar Cymru; Mark Jones – Higher Plain Research and Education; Dave Williams – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; Hannah Williams – Gofal Cymdeithasol Cymru; Nigel Patrick Thomas, Mike Greenway – Chwarae Cymru; Cecile Gwilym – NSPCC; Becky Saunders – Y Sefydliad Ymyrraeth Cynnar

1. CROESO, COFNODION, MATERION SY'N CODI

Cofnodion: Gwnaed penderfyniad i ohirio'r mater hwn tan y cyfarfod nesaf yn sgil y ffaith bod y cyfarfod hwn yn croestorri â gwaith dau grŵp trawsbleidiol. Mae angen cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2023 o hyd, a byddant yn cael eu hychwanegu at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf. Cafodd Bronwen Davies o Hawliau Erthyly Caerdydd neges e-bost gan yr Ysgrifenyddiaeth yn holi beth oedd ei chwestiwn.

2. UCHELGAIS Y 1,000 DIWRNOD CYNTAF: BETH YW'R SEFYLLFA YNG NGHYMRU?

Julie Richards – Cyfarwyddwr Coleg Brenhinol y Bydwagedd Cymru

- Nod y '1,000 Diwrnod Cyntaf' yw ceisio sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud yn iawn ar ddechrau bywyd person. Mae'n sylfaen ar gyfer sicrhau iechyd a lles pawb yng Nghymru.
- Mae'r broses hon yn dechrau gyda gofal iechyd mamau, ac mae cydberthynas gref rhwng y cyfnod mamolaeth a'i ddylanwad ar y blynnyddoedd cynnar a datblygiad plant.



- Mae RCM Cymru yn canolbwyntio ar bedwar piler sy'n gysylltiedig â chyflwr gwasanaethau mamolaeth: iechyd y boblogaeth, iechyd a lles, ymyrraeth gynnar, a sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd.
- Mae nifer y genedigaethau yn y cartref yng Nghymru yn arwydd bod gwasanaethau mamolaeth yn gwneud eu gwaith o ran cefnogi a galluogi menywod i gael dewis o ran eu gofal.
- Mae gwaith caled yn cael ei wneud ar effaith prinder staff ar lesiant a morâl, a hynny drwy gynyddu lleoedd hyfforddi i fydwagedd a buddsoddi yn eu gyrfaedd.
- Nid yw gofynion y gweithlu yn fater sy'n ymwneud â nifer y genedigaethau yn unig. Mae'n hanfodol ein bod yn edrych ar gymhlethdod y llwyth gwaith y mae gwasanaethau mamolaeth yn ei wynebu (fel y cynnydd a welir yn oedran mamau, ffigurau BMI sy'n cynyddu ledled Cymru, ac ati).
- Mae'r prif ofnyion polisi fel a ganlyn: sicrhau mwy o gyllid er mwyn rhoi'r Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol ar waith; a sicrhau ffocws ar y gweithlu a staffio, gan sicrhau ein bod yn darparu adnoddau digonol ac yn sicrhau'r cymysgedd iawn o sgiliau, ynghyd â chymorth a gofal ar gyfer staff, gan ganolbwyntio ar eu llesiant er mwyn ceisio cadw bydwagedd profiadol.

3. Y 1,000 DIWRNOD CYNTAF: SAFBWyNT Y Fydwraig

Bryany Tweedale – Bydwraig Ymgynghorol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

- Mae angen cyffredinol i roi menywod wrth galon y daith o ran gwella gwasanaethau, a hynny drwy wrando ar eu profiadau a dysgu gwersi yn eu cylch.
- Yn hanesyddol, bu gan yr hen Fwrdd Iechyd Cwm Taf wasanaeth mamolaeth lle nad oedd menywod yn teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch, nac yn cael y wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt, nac yn cael y gofal a'r cymorth yr oedd eu hangen arnynt. Mae hwn yn fater blaenllaw ar draws y sector mamolaeth yn y DU.
- Presenoldeb bydwagedd yw'r ymyriad "mwyaf pwerus" yng nghyd-destun cyfraddau uwch o enedigaethau a ysgogir, genedigaethau a gynorthwyr, a genedigaethau Cesaraid, ynghyd â chymhlethdodau clinigol sy'n gwaethygu yn sgil gordewdra a diabetes. Ceir achosion o anhwylder straen wedi trawma (PTSD), marwolaethau mamau drwy hunanladdiad, a rhai menywod yn dewis cael triniaeth breifat neu roi genedigaeth heb unrhyw gymorth proffesiynol. Fodd bynnag, mae lefelau cynyddol o ymyrraeth yn ystod genedigaeth yn cael effaith negyddol ar fenywod, o ran eu profiadau genedigaeth trawmatig a PTSD.
- Mae rôl y Fydwaig Ymgynghorol yn rôl sy'n cynnwys ymarfer uwch arbenigol, arweinyddiaeth ac ymgynghori. Mae'r bydwagedd hyn yn chwarae rhan yn y broses o ddatblygu gwasanaethau strategol.
Camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn adroddiad anffafriol y Panel Goruchwylio Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth (IMSOP) yn 2021: Rhaglen wella eang ei chwmpas a oedd yn cynnwys gwaith ymgysylltu sylweddol â menywod a'u teuluoedd, gwaith i wella parhad gofal, a chynllun peilot ynghylch partion bwmp ('baby showers').

4. Y 1,000 DIWRNOD CYNTAF: PERSBECTIF Y BABAN

Dr Orion Burns – Y Gymdeithas ar gyfer Iechyd Meddwl Babanod

- Cenhadaeth y Gymdeithas ar gyfer Iechyd Meddwl Babanod yw hybu dealltwriaeth ynghylch pam mae iechyd meddwl babanod yn bwysig, a chefnogi datblygiad proffesiynol yr holl ymarferwyr sy'n gweithio gyda rhieni a babanod.
- Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod iechyd meddwl cynenedigol ac ôl-enedigol wedi'i gynnwys yng nghanllawiau clinigol NICE, ond yn nodi y gall hyd yn oed gwasanaethau da fod yn niweidiol pan gânt eu darparu i'r bobl anghywir.
- Felly, atal niwed yn sgil darparu gwasanaethau mewn modd amhriodol ddylai fod y flaenoriaeth gyntaf. Ar ôl hynny, gellir nodi a darparu gwasanaethau sy'n debygol o fod yn ddefnyddiol.
- Mae angen gweithio gyda 'Model Dylanwadau Dwy Ffordd' sy'n edrych ar lu o ffactorau gwahanol sy'n effeithio ar iechyd meddwl babanod.

5. TRAFOD Y MATERION A GODWYD GAN Y SIARADWYR

Canolbwyntiodd y drafodaeth i raddau helaeth ar yr angen am wasanaethau sy'n ystyriol o drawma ar gyfer pob menyw sy'n ceisio gofal mamolaeth ac ar gyfer pob genedigaeth, yr hyn y gellir ei wneud i ddileu achosion o hunanladdiad mewn lleoliadau amenedigol, a'r posibilrwydd o dreialu cynllun 'bwndel babanod' ym mhob rhan o Gymru.

Gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma:

- Trafodwyd yr angen am ofal sy'n ystyriol o drawma a chymorth iechyd meddwl ar gyfer rhieni a babanod. Gwnaed sylwadau ynghylch y trothwy a'r capasiti ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, a sut y gall sefydliadau yn y trydydd sector ddarparu gwasanaethau ar y cyd ag asiantaethau'r Llywodraeth.
- Mae angen bod yn agored i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau ehangach er mwyn creu llwybrau gofal cyfannol. Yn ogystal, mae angen cofio bod llawer o'r trawma y mae mamau newydd yn ei weld yn fater sy'n digwydd rhwng cenedlaethau, a rhaid darparu cefnogaeth ar gyfer hyn hefyd.

Atal achosion o hunanladdiad amenedigol:

- Roedd y sgwrs yn canolbwyntio ar ddiffygion gwasanaethau mewn perthynas â menywod sy'n cymryd eu bywydau eu hunain ac sydd eisoes wedi'u nodi fel achosion risg uchel. Rhaid sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael i fenywod sydd mewn perygl o niweidio eu hunain, ac mae ffordd bell i fynd o ran hynny.
- Wrth drin symptomau corfforol yn unig, rydym yn gosod y bar yn isel wrth ddarparu gofal iechyd i famau. Gallem fod yn gwneud mwy i sicrhau nad yw gwasanaethau iechyd amenedigol a gwasanaethau i famau yn mynd ar goll yn y lluo o wasanaethau iechyd meddwl ehangach a ddarperir i oedolion.

Gweithredu'r 'bwndel babanod':



- Cafodd bwndeli babanod eu treialu mewn un rhan o Abertawe, ac roedd y cynllun hwn yn un hynod lwyddiannus. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar sut y gallwn ymestyn y cynllun hwn i bob ran o Gymru, a hynny er mwyn sicrhau bod mamau newydd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi wrth iddynt ymgymryd â'u rôl newydd.
- Mae costau byw wedi effeithio ar rai o'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau fel y bwndel babanod (Barnardo's). Serch hynny, gallai cydweithio â Llywodraeth Cymru olygu bod y gost yn cael ei lledaenu a bod atebion mwy effeithiol yn cael eu canfod.

6. UNRHYW FATER ARALL

**Y CYFARFOD NESAF: CANOLBWYNTIO AR RÔL YMWELWYR IECHYD A THIMAU
AMLDDISGYBLAETHOL ERAILL SY'N YMWNEUD Â'R 1,000 DIWRNOD CYNTAF. DYDDIAD I'W
GADARNHAU AR ÔL CADARNHAU'R SIARADWYR**
